YDI'R STORI FER GYMRAEG FEL FFURF YN DARFOD?

Mae pryder cynyddol ymhlith llenorion bod y stori fer fel ffurf lenyddol Gymraeg yn prysur ddarfod. Mae rhai bellach yn mynnu bod angen cynllun ac ymgyrch benodol ymhlith yr ifanc i adfer y sefyllfa.

A hithau eleni yn chwarter canrif ers marwolaeth Dr Kate Roberts oedd yn feistres ar y ffurf, mae Cadeirydd Ymddiriedolaeth Kate Roberts, Pennaeth Ysgol y Gymraeg Prifysgol Bangor a Chyfarwyddwr y Ganolfan Ysgrifennu Genedlaethol yn Nhŷ Newydd Llanystumdwy yn credu bod rhaid gwneud rhywbeth ar fyrder i ail-ennyn diddordeb yn y ffurf.

“Er ein bod wedi cael ennillwyr teilwng yng Nghystadleuaeth Stori Fer Kate Roberts yn ddiweddar, ychydig a bod yn onest wnaeth gystadlu – gyda neb o gwbl yn cystadlu rhwng 17 a 25 oed,” meddai Dewi Tomos, Cadeirydd Canolfan Cae'r Gors. “ Gallwch ddychmygu bod hyn yn loes calon i ni yma wrth i ni geisio gwarchod etifeddiaeth lenyddol Dr Kate”.

Mae'r Athro Peredur Lynch o Brifysgol Bangor yn amau bod y nofel wedi bywiogi ar draul y stori fer ac nad yw'n apelio bellach i'n hawduron ifanc. Mae'n galw ar ymgyrch benodol i achub y ffurf.

“Y mae deunydd nofel ym mhawb, yn ôl yr hen dddywediad. Ond a oes deunydd stori fer ? Beth ddigwyddodd i'r stori fer Gymraeg ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain? Ai ffurf ddirmygedig ydyw bellach gan ein prif awduron? Onid yw hi'n hen bryd i ni ddargyfeirio rhywfaint o'r bywiogrwydd rhyfeddol sydd ar hyn o bryd ym myd y nofel i gyfeiriad y stori fer?”

Mae Sally Baker hefyd yn galw am weithredu ymarferol i ail ennyn diddordeb yn y grefft o ysgrifennu straeon byrion.

“Mae'n ymddangos bod y stori fer Gymraeg wedi llithro i foroedd meirwon yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae'n rhaid i'r rhai ohonym sydd yn pryderu'n arw am hyn gyd-weithio i achub y sefyllfa. Dyma paham y mae Tŷ Newydd, mewn partneriaeth ag Academi yn hynod falch o fod yn gweithio gyda Cae'r Gors a Phrifysgol Bangor i ddatblygu cynlluniau blaengar er mwyn hybu talent ysgrifennwyr ifanc yn y maes.”

Bydd cynrychiolwyr y tri sefydliad yma rwan yn cyfarfod i geisio ymateb yn ymarferol i'r her, gan droi at y mudiadau yng Nghymru sy'n gweithio gyda ieuenctid er mwyn gweld a oes modd cyd-weithio i wyrdroi'r sefyllfa.

NODYN GOLYGYDDOL

Gellir trefnu cyfweliadau trwy gysylltu efo'r Athro Peredur Lynch yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor ar 01248 382245 neu p.i.lynch@bangor.ac.uk